

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (GREAT WEDLOCK FARM, GUMFREESTON, DINBYCH-Y-PYSGOD, SIR BENFRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Penfro ar 4 Gorffennaf 2022 o dan y cyfeirnod 21/0975/PA a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Great Wedlock Farm, Gumfreston, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro) 2022 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Great Wedlock Farm, Gumfreston, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1564266.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 14 Rhagfyr 2022 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-cau) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (GREAT WEDLOCK FARM, GUMFREESTON, TENBY, PEMBROKESHIRE) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only to enable the development to be carried out in accordance with outline planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Pembrokeshire County Council on 4 July 2022 with reference 21/0975/PA described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Great Wedlock Farm, Gumfreston, Tenby, Pembrokeshire) Order 2022 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Great Wedlock Farm, Gumfreston, Tenby, Pembrokeshire SA70 8RB or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1564266.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

- a. it is not within the powers of the 1990 Act; or
- b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 14 December 2022 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Y darn o briffordd sydd i'w gau (Bras amcan yw pob mesuriad)

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n 77.5 o fetrau yn y man hiraf ac yn 10 metr yn y man lletaf, i'r de-ddwyrain o Great Wedlock Farm, ac i'r gorllewin o'r B4318, Gumfreston, Dinbych-y-pysgod a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

### Y Datblygiad

Newid defnydd hen ysguboriau amaethyddol i barc ceirw i ymwelwyr, ac at ddefnydd addysgol a digwyddiadau, gyda maes parcio ar y prif fuarth. Gosod paneli solar ffotofoltaig ar yr ysgubor a manau gwefru cerbydau trydan. Cadw ardal wyllo ceirw ddiogel sydd ynghlwm wrth yr ysgubor. Newid defnydd hen garej i bractis milfeddygol ar gyfer anifeiliaid mawr ac anifeiliaid morol. Newid defnydd ysgubor amaethyddol i adeilad milfeddygol (gyda defnydd ategol gan y fferm geirw pan fydd angen). Newid defnydd hen ysgubor amaethyddol i ystafell gyfarpar. Creu mynedfa newydd i'r B4318. Gwneud gwaith tirlunio a seilwaith ar y prif safle a chreu ardaloedd plannu newydd i liniaru effaith y gwaith. - Great Wedlock, Gumfreston, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 8RB.

## SCHEDULE 1

### Length of highway to be stopped up (All measurements are approximate)

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 77.5 metres and a maximum width of 10 metres, located southeast of Great Wedlock Farm, and west of the B4318, Gumfreston, Tenby shown by zebra hatching on the deposited plan.

## SCHEDULE 2

### The Development

Change of use of former agricultural barns to a deer attraction park, educational and events use, with car park to main farmyard. Installation of Solar PV to Barn and electric vehicle charging points. Retention of secure deer viewing area attached to barn. Change of Use of former garage to large animal and marine veterinary practice. Change of Use of agricultural Barn to Veterinary building (with ancillary use by deer farm when required). Change of Use of former agricultural Barn to plant room. Creation of new access to B4318. Landscaping and infrastructure works to main site and creation of new mitigating planting areas. - Great Wedlock, Gumfreston, Tenby, Pembrokeshire, SA70 8RB